

Defnyddio'r Gymraeg yn Effeithiol mewn Cyfarfodydd Dwyieithog

Cyflwyniad

Mae'r Safonau Iaith Gymraeg yn rhoi hawl i'r cyhoedd, myfyrwyr a staff i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd. Gweler y canllaw i *Gyfarfodydd* am fanylion ynghylch pa fath o gyfarfodydd sy'n berthnasol. Weithiau bydd modd cynnal y cyfarfodydd hyn yn gyfan gwbl drwy'r Gymraeg ond dro arall bydd angen i'r cyfarfod fod yn ddwyieithog. Mae'r arweiniad hwn yn berthnasol i gyfarfodydd pan fydd angen defnyddio cyfieithydd ar y pryd er mwyn gallu gweithredu'r hawl i ddefnyddio'r Gymraeg.

Pwyllgorau'r Brifysgol

Mae rhestr o bwyllgorau'r Brifysgol sydd yn gweithredu'n ddwyieithog i'w gweld yn y ddogfen *Defnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith ym Mhrifysgol Aberystwyth*, ond rhaid i bwyllgorau eraill hefyd gael eu cynnal yn ddwyieithog os yw'r aelodau yn dymuno hynny.¹

Trefnu Cyfieithydd ar y Pryd

Dylid cysylltu â Chanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg – cyfieithu@aber.ac.uk er mwyn trefnu cyfieithydd ar y pryd o leiaf 5 diwrnod gwaith o flaen llaw. Os yw dyddiadau pwyllgor wedi'u trefnu ymhell o flaen llaw dylid cysylltu â'r Ganolfan er mwyn hwyluso trefnu'r cyfieithydd ar y pryd o flaen llaw hefyd.

Papurau'r Cyfarfod

Dylid anfon yr agenda ac unrhyw bapurau a chyflwyniadau PowerPoint at y cyfieithydd ar y pryd rai dyddiau o flaen llaw fel bod cyfle iddo/i ymgyswngtu â'r materion sy'n debygol o godi yn y cyfarfod. Os yw'r ddogfennaeth ar gael yn ddwyieithog, anfonwch y ddau fersiwn at y cyfieithydd os gwelwch yn dda.

Cyn y Cyfarfod

Dylai'r cadeirydd neu un o'r swyddogion eraill anelu at gyrraedd ychydig yn gynnar i'r cyfarfod er mwyn cynghori'r cyfieithydd ar y lle gorau i osod ei offer cyfieithu fel y bydd yn gallu gweld a chlywed pawb ond na fydd mewn man a fyddai yn ymyrryd ar y cyfarfod.

Rôl y Cadeirydd

Mae gan y Cadeirydd ran allweddol i'w chwarae wrth gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, a normaleiddio'r arfer o gynnal cyfarfodydd dwyieithog. Y nod wrth gadeirio cyfarfod dwyieithog yw annog pawb i ddefnyddio'i ddewis iaith a'i gwneud yn gwbl naturiol a rhwydd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd amrywiol

¹ Gweler Canllaw *Cyfarfodydd*

a newydd. Cyfrifoldeb y cadeirydd yw sefydlu awyrgylch dwyieithog y cyfarfod a chreu amodau a fydd yn gwrthweithio'r duedd i droi i'r Saesneg. Gall cadeirydd, trwy ei agwedd, ddangos mai'r peth naturiol i bob siaradwr Cymraeg yw siarad yn y Gymraeg ac nad yw'n anghwrtais siarad Cymraeg ym mhresenoldeb pobl uniaith Saesneg.

Cadeiryddion sy'n medru'r Gymraeg

Pan fydd Cadeirydd dwyieithog yn cynnal cyfarfod, yn ddelfrydol dylai gadeirio'r cyfarfod yn Gymraeg. Mae hynny'n hwb i'r iaith oherwydd mae'n normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg a'r gwasanaeth cyfieithu o'r cychwyn cyntaf, ac mae'n sefydlu statws y Gymraeg yn y trafodion gan roi arwydd cadarnhaol ac anogaeth i'r cyfranwyr siarad Cymraeg. Mae 'Cadeirio yn Gymraeg' yn golygu llywio'r drafodaeth yn Gymraeg ac ymateb yn Gymraeg i'r drafodaeth hyd yn oed pan fydd y drafodaeth a'r cwestiynau yn Saesneg.

Cofiwch na fydd y di-Gymraeg o dan anfantais o gwbl, oherwydd mi wnaiff y cyfieithydd sicrhau bod pawb yn gallu cyfranogi'n llawn.

Mae'r ystyriaethau hyn yn bwysig o ran cynorthwyo siaradwyr Cymraeg i deimlo'n gartrefol ac mae'n dangos iddynt fod y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal a bod croeso iddynt siarad Cymraeg os ydynt am gyfrannu.

Wrth gadeirio cyfarfod dwyieithog dylid

- Croesawu pawb i'r cyfarfod yn Gymraeg ac yn Saesneg
- Esbonio mai cyfarfod dwyieithog ydyw a bod croeso i bawb gyfrannu yn Gymraeg neu yn Saesneg.
- Cyflwyno'r cyfieithydd. Dylid sicrhau fod clustffonau gan bawb sydd angen a'u bod yn gweithio'n iawn.
- Cofio bod y Cadeirydd a phawb arall yn gallu ateb pwyntiau a sylwadau a wneir yn Gymraeg *ac yn Saesneg* yn Gymraeg. Mewn cyfarfod dwyieithog ni ddylai neb ystyried bod hyn yn anghwrtais.
- Troi iaith y cyfarfod yn ôl i'r Gymraeg os oes tueddiad i drafod yn Saesneg ar ôl i rywun gyfrannu yn Saesneg.
- Cofio y gall y Cadeirydd gadeirio yn Gymraeg yn unig os yw'n dymuno gwneud hynny. Fel rheol mae hynny'n ennyn hyder ymhlith siaradwyr Cymraeg eraill.
- Cadw llygaid ar yr aelodau sy'n gwisgo clustffonau – os bydd disgwyl iddynt ateb i gwestiwn dylid rhoi amser iddynt wisgo a thynnu eu clustffonau er mwyn gwranddo a siarad.
- Sicrhau nad yw pobl yn siarad ar draws ei gilydd er mwyn hwyluso gwaith y cyfieithydd
- Cau y cyfarfod yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Cadeiryddion nad ydynt yn medru'r Gymraeg

Hyd yn oed os nad yw'r Cadeirydd yn medru siarad Cymraeg, mae ganddo/i rôl bwysig i sicrhau bod y rhai sydd yn bresennol yn y cyfarfod ac yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn teimlo bod croeso iddynt wneud hyn. Cofiwch na fydd y di-Gymraeg o dan anfantais o gwbl, oherwydd mi wnaiff y cyfieithydd sicrhau bod pawb yn gallu cyfranogi'n llawn.

- Os yn bosib, dylid agor y cyfarfod yn Gymraeg drwy groesawu pawb yn Gymraeg. e.e. *Prynhawn da a chroeso i chi gyd - Good afternoon and welcome*"
- Dylid cyhoeddi fod y cyfarfod yn un dwyieithog a bod croeso i bawb ddefnyddio eu dewis iaith gan fod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.
- Dylid cyflwyno'r cyfieithydd a sicrhau fod clustffonau gan bawb sydd angen a'u bod yn gweithio'n iawn.
- Dylid sicrhau nad yw pobl yn siarad ar draws ei gilydd er mwyn hwyluso gwaith y cyfieithydd.
- Os yn bosib, dylid cau y cyfarfod yn Gymraeg e.e. *Dyna ddiwedd y cyfarfod. Diolch am ddod. – We'll finish the meeting now. Thank you for coming.*

Ymadroddion Defnyddiol

Agor cyfarfod / Opening a meeting

| | |
|-----------------------------------|-----------------------------------|
| Croeso i'r cyfarfod | Welcome to the meeting |
| Croeso i Brifysgol Aberystwyth | Welcome to Aberystwyth University |
| Diolch i chi am ddod.. | Thank you for coming. |
| Bore da a chroeso. | Good morning and welcome |
| Croeso cynnes i... | A warm welcome to... |
| Ga' i gyflwyno... i chi. | May I introduce ... to you. |
| Mae Mr ... yn mynd i siarad am... | Mr is going to talk about... |

Cau cyfarfod / Closing a meeting

| | |
|--|---|
| Diolch am ddangos eich cefnogaeth i ni y bore yma. | Thank you for showing us your support this morning. |
| Diolch i chi am gymryd rhan yn y cyfarfod heddiw. | Thank you for taking part in the meeting today |